

# *Pensaer yr Eglwys Gadeiriol*

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor

Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

# *Mae'r Deon a'r Cabidwl yn gwahodd tendrau ar gyfer swydd*

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn bensaer cadwraeth achrededig gyda phortffolio o adeiladau hanesyddol arwyddocaol, yn ddelfrydol gan gynnwys eglwysi cadeiriol neu brif eglwysi yng Nghymru neu Loegr. Mae angen dealltwriaeth o'r pwrpas litwrgaidd, cenhadol ac eraill sy'n perthyn i'r Gadeirlan, yn ogystal â dychymyg a chreadigrwydd i ddod o hyd i atebion ymarferol a chost-effeithiol. Bydd y penodiad yn para pum mlynedd i ddechrau, wedi ei adolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.



# *Cyflwyniad gan y Deon*



Diolch i chi am eich diddordeb yn swydd Pensaer yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor.

Mae'r Gadeirlan yn rhan o draddodiad byw sy'n ymestyn dros 1500 o flynyddoedd. Wedi'i sefydlu gan Deiniol Sant yn 525 AD, mae ein Cadeirlan yn un o'r safleoedd addoli Cristnogol parhaus hynaf ym Mhrydain. Dros y canrifoedd, bu'n fan gweddi, pererindod a chymuned i bobl gogledd Cymru a thu hwnt.

Wedi inni ddathlu 1,500 mlynedd ers sefydlu Bangor yn ddiweddar, rydym yn edrych tua'r dyfodol gyda gobaith ac uchelgais. Fel man addoli a lleoliad celfyddydol yng nghalon Bangor, rydym yn cychwyn ar bennod newydd, gyda gwaith adfer a chadwraeth sylweddol o'n blaen, yn ogystal â datblygu cynllun cynnal a chadw a gwella ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Rydym yn chwilio am Bensaer a fydd yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer y man cysegredig hwn, yn anrhydeddu ei etifeddiaeth, yn sicrhau ei gynaliadwyedd ac yn ei wneud yn hygyrch ac yn ysbrydoledig i genedlaethau'r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd ein Pensaer nesaf yn cefnogi ac yn annog bywyd y man sanctaidd hwn, gan ysbrydoli eraill i chwarae eu rhan yn ei stori barhaus.
Gyda phob dymuniad da,

Manon Ceridwen James
Deon Bangor




# *Cadeirlan Bangor*

Wedi’i sefydlu gan Deiniol Sant, mae Cadeirlan Bangor yn ganolog i fywyd crefyddol, pensaernïol a diwylliannol y ddinas. Mae wedi’i siapio gan ganrifoedd o newid, gan oroesi ymosodiadau Llychlynwyr, gwrthdaro ac ailadeiladu. Mae’r adeilad presennol yn dyddio’n bennaf o’r ddeuddegfed ganrif ymlaen ac yn dangos cymysgedd cyfoethog o bensaernïaeth Rufeinig a Gothig. Sicrhawyd ei ddyfodol gan waith adfer mawr yn y 19eg ganrif gan Syr George Gilbert Scott, ac erbyn heddiw mae’r Gadeirlan yn adeilad Gradd I sy’n parhau â’i thraddodiad hir fel man addoli a bywyd sifig.

Y tu hwnt i’w rôl litwrgaidd, mae’r Gadeirlan yn ganolfan fywiog ar gyfer cerddoriaeth, dysgu a gweithgaredd cymunedol, gan groesawu pererinion, ymwelwyr a thrigolion lleol. Yn 2025, dathlwyd 1,500 o flynyddoedd Bangor gyda rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu rôl gynyddol y Gadeirlan fel man pererindod a chydgysylltiad.

Arweinir bywyd beunyddiol y Gadeirlan gan y Deon, gyda chefnogaeth y Cabidwl a thîm ymroddedig o glerigion, staff a gwirfoddolwyr. Gyda'i gilydd, maent yn llywio addoli, cenhadaeth a gweinyddiaeth y Gadeirlan, gan weithio'n agos â'r Esgobaeth a Chorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Gadeirlan ar hyn o bryd mewn cyfnod o adnewyddu, gyda ffocws cryf ar lywodraethu da, diogelu a chynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Fel prif eglwys un o esgobaethau gwreiddiol yr Eglwys yng Nghymru ac eglwys blwyf y ddinas, mae Cadeirlan Bangor yn ceisio gwasanaethu Duw fel tŷ gweddi ac addoli, gan gefnogi'r Esgob a'r esgobaeth ehangach a chynnig croeso i'r gymuned gyfan. Mae'r Gadeirlan yn ymrwymedig i gynhwysiant ac i ddathlu ei hetifeddiaeth, gan groesawu pawb fel pererinion ac annog myfyrdod, ffydd ac ymgysylltiad â stori Gristnogol. Gan adlewyrchu bywyd dwyieithog yr esgobaeth, cynhelir addoliad yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Prif Heriau sydd o'n Blaenau

- Cadwraeth ac Adfer: Atgyweiriadau parhaus i fowlderi, gwydr lliw a thu mewn hanesyddol, gan gynnwys gwaith a nodwyd mewn arolygon pum mlynedd diweddar.
- Cynaliadwyedd: Ymateb i effeithiau newid hinsawdd, gwella effeithlonrwydd egni, a chefnogi nodau sero-net yr Eglwys.
- Llywodraethu a Chydymffurfiaeth: Sicrhau arferion gorau o ran llywodraethu, diogelu a rheolaeth ariannol, yn unol ag argymhellion ac archwiliadau diweddar.
- Ymgysylltu â'r Gymuned: Cryfhau rôl y Gadeirlan fel canolfan addoli, cerddoriaeth, addysg a digwyddiadau cymunedol.
- Ariannu: Sicrhau grantiau a datblygu ffrydiau cyllido cynaliadwy ar gyfer prosiectau mawr a chynnal a chadw parhaus.

## Disgrifiad o’r Rôl

Mae gan Bensaer y Gadeirlan gyfrifoldeb cyffredinol dros ofalu am ffabrig yr Eglwys Gadeiriol, gan gynnwys yr adeilad, ei chynnwys, ei dodrefn a’i hamgylchfyd. Er na fyddant yn arbenigwr ym mhob maes, disgwylir iddynt adnabod pryd mae angen arbenigedd ac i gynnwys yr ymgynghorwyr priodol.

Maent yn goruchwylio pob gwaith atgyweirio a chadwraeth i’r Gadeirlan ac adeiladau cysylltiedig, yn ogystal ag unrhyw waith cynnal a allai effeithio’n sylweddol neu’n barhaol ar y ffabrig. Maent yn darparu cyngor ar bob agwedd o’r ffabrig, gan gynnwys ei hymddangosiad a’i chymeriad, ac yn dod â chyfuniad o arbenigedd technegol a sensitifrwydd i etifeddiaeth, dyluniad a chyd-destun.

Ar gyfer prosiectau adeiladu newydd sylweddol, dylid defnyddio proses ddethol agored er mwyn penodi’r pensaer mwyaf addas. Rhaid cynnwys Pensaer y Gadeirlan wrth ddatblygu'r briff a chaiff ei ymgynghori cyn penodi unrhyw ddylunwyr allanol. Maent yn gweithredu fel gwarchodwyr ffabrig yr Eglwys Gadeiriol drwy gydol prosiectau o’r fath, gan sicrhau parhad a chywirdeb.

Bydd Pensaer y Gadeirlan fel rheol yn gweithredu fel prif ymgynghorydd ar brosiectau atgyweirio a chadwraeth, gan weithio gydag ymgynghorwyr proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Rhaid i’r Cabidwl sicrhau cynhelir archwiliad pum mlynedd, a chyflawnir hwn gan Bensaer y Gadeirlan.

Maent yn aelod canolog o dîm proffesiynol y Gadeirlan ac fe ddisgwylir iddynt fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaethol (DAC) pan fydd materion sy’n ymwneud â’r Gadeirlan ar yr agenda, oni wneir trefniant arall.



## Cyfrifoldebau

Disgwylir i'r Pensaer ymgymryd â'r Cyfrifoldebau canlynol:

### Archwiliadau a Chyfriflenni Pum Mlynedd

- Cynnal archwiliad llawn o'r Gadeirlan bob pum mlynedd.
- Darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Cabidwl, yn nodi'r gwaith angenrheidiol, blaenoriaethu brys ac amlinellu cynllun cynnal a chadw clir.
- Dylai'r adroddiad cyntaf, i'w gwblhau o fewn blwyddyn i'r penodiad, seilio ar archwiliad llawn ac fe fydd yn sail ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

### Chapter

Cyflwyno adroddiadau i'r Cabidwl yn crynhoi:

- Gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn
- Cynnydd ar argymhellion yr archwiliad pum mlynedd
- Cyngor ar gofnodion parhaol
- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gofal a chadwraeth y ffabrig

### Cynllunio ar gyfer Trychinebau ac Iechyd a Diogelwch

Cyfrannu at archwiliadau tân, cynllunio argyfwng ac adolygiadau iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn perthynas ag:

- Mynediad ar gyfer cynnal a chadw
- Diogelwch ymwelwyr a staff
- Caiff y meysydd hyn eu hadolygu hefyd fel rhan o archwiliadau pum mlynedd.

## Cynllunio a Chyllidebu ar gyfer Atgyweiriadau

Ar ôl pob archwiliad pum mlynedd:

- Paratoi cynllun blaen ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau dros gyfnod o tua phum mlynedd.
- Darparu argymhellion wedi'u blaenoriaethu gyda chostau dangosol.
- Cynghori'r Cabidwl yn ystod y broses gyllidebu i sicrhau bod dyraniadau'n ddigonol i gynnal ffabrig y Gadeirlan yn effeithiol.

## Datblygu Prosiectau

- Caiff Pensaer y Gadeirlan ei ymgynghori'n gynnar ar unrhyw brosiect sy'n effeithio ar y ffabrig.
- Paratoi'r holl ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer cymeradwyaeth Cynghorol neu Ganiatâd Cynllunio.

## Cynnal

Gwneir yr holl atgyweiriadau, cynnal a newid i'r Gadeirlan o dan gyfeiriad proffesiynol Pensaer y Gadeirlan, er mwyn sicrhau bod pob prosiect yn parchu arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad.

## Cynnal a Chadw

Mae cynnal a chadw rheolaidd yn hanfodol i warchod ffabrig a dodrefn y Gadeirlan. Gall tasgau amrywio o glirio gutteri i waith cerrig. Lle gallai cynnal a chadw effeithio'n sylweddol ar yr adeilad, efallai y bydd angen cymeradwyaeth briodol. Dylai staff gytuno ar ddulliau, deunyddiau a theclynnau gyda Pensaer y Gadeirlan.

## Cadwraeth

Mae Pensaer y Gadeirlan yn rhoi cyngor ar ofalu am gofebau, gwydr lliw, lloriau hynafol, dodrefn a chyfarpar litwrgaidd, gan weithio gydag arbenigwyr cadwraeth pan fo angen.

## Atgyweiriadau

Mae lefel goruchwyliaeth yn dibynnu ar gymhlethdod y gwaith. Dylid cytuno ar safonau ansawdd ymlaen llaw, a chyfeirio unrhyw faterion annisgwyl at y Pensaer.

## Ymgynghorwyr Arbenigol

Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys awyru, gwresogi, goleuo, diogelwch, tân, organau, clochau neu osodiadau eraill:

- Mae Pensaer y Gadeirlan yn cynghori ar benodi ac ar gydlynu arbenigwyr annibynnol
- Er mwyn sicrhau bod pob gwaith yn briodol ac yn integreiddio'n dda â'r adeilad hanesyddol

## Ffitiadau Newydd a Gwaith Celf

Mae Pensaer y Gadeirlan yn rhan o bob cynnig ar gyfer:

- Dodrefn newydd
- Cofebau
- Gwydr lliw
- Arwyddion
- Newidiadau litwrgaidd neu artistig

Gallant ddylunio eitemau, helpu wrth ddewis dylunwyr neu adolygu cynigion i sicrhau eu bod yn addas i gymeriad yr adeilad. Dylai'r Cabidwl ymgynghori cyn derbyn unrhyw rodd neu ychwanegiad sy'n effeithio ar ffabrig neu ddodrefn y Gadeirlan.

## Prosiectau Newydd

Ar gyfer prosiectau mwy neu gyfleusterau newydd, dylai'r Cabidwl ystyried:

- A ddylai Pensaer y Gadeirlan arwain y gwaith neu
- A oes angen arbenigwr allanol

## Atebolrwydd

Mae Pensaer y Gadeirlan yn atebol i'r Cabidwl ac fe ddisgwylir iddynt wneud hynny'n ffurfiol unwaith y flwyddyn, gan roi darlun clir o'r hyn sy'n dod yn ogystal â'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni. Bydd y berthynas waith sylfaenol gyda'r Rheolwr Gweithrediadau, gyda chydweithio agos hefyd gyda'r Deon.

## Perthnasau Allweddol Eraill

Yn ogystal â gweithio'n agos gyda staff y Gadeirlan, bydd y Pensaer yn cydweithio gyda:

- Y Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaethol (DAC)
- Cymdeithasau Diogelu Triwedd a Threftadaeth
- Cadw
- Adran gynllunio'r awdurdod lleol
- Cyrff perthnasol eraill ym maes treftadaeth a chynllunio

## Ffioedd ac Ymrwymiad Amser

Bydd tâl blynyddol (retainer) yn cael ei dalu — dylai ymgeiswyr ddyfynnu ar gyfer hyn. Bydd y tâl blynyddol yn cynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd a chynhyrchu adroddiadau cysylltiedig
- Cyngor achlysurol, gan gynnwys:
    - Ymateb i ymholiadau
    - Ymgynghoriadau ffôn
    - Adroddiadau byr
    - Datblygu prosiectau cynnar (gan gynnwys rhai nad ydynt yn mynd yn eu blaen)

- Costau teithio neu dreuliau cysylltiedig

Disgwylir i waith i'r Cabidwl gael blaenoriaeth a bod staff y Gadeirlan yn gallu ceisio cyngor heb gostau ychwanegol.

## Ymrwymiad Amser

Tua dau ddiwrnod y mis ar gyfartaledd o dan y tâl blynyddol.

## Gwaith Ychwanegol y Tu Allan i'r Tâl Blynyddol

Efallai y bydd rhai adroddiadau, megis archwiliadau pum mlynedd ac atudiaethau cwmpasu prosiectau sylweddol yn syrthio y tu allan i'r retainer.

### Dylai ymgeiswyr:

- Nodi pa eitemau nad ydynt yn cael eu cynnwys
- Darparu costau dangosol
- Cynnwys cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith ychwanegol

Ar gyfer prosiectau mawr, dylai ymgeiswyr amlinellu:

· Strwythur ffioedd (e.e. canran o gost y prosiect neu ffi sefydlog)
· Enghreifftiau o ffioedd ar gyfer prosiectau o wahanol raddfeydd



# *Sut i Wneud Cais*

Dylid yrru ceisiadau i:

Tomos Dobson
Rheolwr Gweithrediadau, Eglwys Gadeiriol Bangor
TomosDobson@churchinwales.org.uk

Dylai ceisiadau gynnwys dau eirda gan gleientiaid blaenorol neu gyfredol. Gellir trefnu ymweliadau anffurfiol cyn gwneud cais drwy swyddfa'r Gadeirlan. Bydd ymgeiswyr rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyfweliad gyda thasg fer ymlaen llaw i'w chyflwyno.

## Atodiad

Crynodeb o'r Prif Waith a Nodwyd gan Archwiliad Pum Mlynedd ddiweddar a Phrosiectau Dymunol

- Atgyweiriadau gwaith maen i'r ystlys Ogleddol a'r Gorllewin
- Cadwraeth gwydr lliw (gan gynnwys ffenestri Clayton & Bell)
- Adfer y Gardd Beiblaidd, mewn partneriaeth â'r cyngor
- Gwelliannau i hygyrchedd a chyfleusterau ymwelwyr
- Uwchraddio systemau gwresogi ac ynni ar gyfer cynaliadwyedd (rhaid rhoi blaenoriaeth i gynllun gwresogi newydd)
- Cynnal a chadw parhaus toeau, draeniad ac interior hanesyddol

**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor